**LLANFAIR YN NEUBWLL CYNGOR CYMUNED**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Nos Fawrth 17 Ionawr 2023**

**Presennol:** Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Sharon Parry, a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: - Ken Taylor - Cynghorydd Sir.
Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol.

**1.** **Ymddiheuriadau:** Gordon Owen, Lowri Owen, William Victor Owen, Einir Thomas and Gareth Thomas.

**2.** **Datganiad o Ddiddordeb** – Datganodd y Cynghorydd K. Taylor ddiddordeb mewn materion cynllunio oherwydd ei rôl ar y Pwyllgor Cynllunio.

**3.** **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion 15 Tachwedd 2022 yn gywir (Cynigiwyd Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. G.O. Jones.)

**4.** **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd y gwaith ar y ffiniau wedi ei ohirio oherwydd y tywydd. Cytunwyd i ofyn i Rospa archwilio'r offer.

4.2 Diffibriliwr – Roedd Cyng G.O. Jones yn dal i geisio cysylltu ag elusen GIG Gogledd Cymru (Awyr Las) am gyngor ar y ffordd orau i fynd drwy'r prosiect.

4.3 Peiriant dosbarthu pecynnau gwastraff cŵn - roedd gaith yn parhau ar hwn. Cytunwyd i ofyn am fin sbwriel arall ar y ffordd wrth Ysgol y Tywyn.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim

**5.** **Penderfyniadau Cynllunio –** dim.

**6.** **Ceisiadau cynllunio**

**7.** Cyflwynwyd a chadarnhawyd adroddiad ariannol y SCC ar gyfer y cyfnod rhwng 1.11.2022 a 31.12.2022 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £ 32,887.35, Cyfrif deposit £3,940.64

7.1 **Praesept 2023/24**
Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o’r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2023, y gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod a’r cronfeydd wrth gefn disgwyliedig ar 31 Mawrth 2023. Cytunwyd i ofyn am praesept o £17,000 ar gyfer 2023/24 – hynny yw dim ychwanegiad.

**8.** **Taliadau i'w gwneud:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog (Tachwedd yn cynnwys ôl daliad o Ebrill 2022.) | | £562.57 |
| Cyflog Rhagfyr | £397.82 | |
| S. Wharton (llwybrau) | £145 | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SCC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

9.1 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith

9.2 Coffáu cyhoeddus yng Nghymru - ymgynghoriad

9.3 Eisteddfod Môn 2024 – i'w drafod mis nesaf.

9.4 Hyfforddiant Un Llais Cymru - cytunwyd i ofyn i Bwyllgor y Neuadd Bentref a fydden nhw'n gosod band eang yn y neuadd er mwyn i Aelodau'r Cyngor allu ymgymryd â hyfforddiant yno.

9.5 Cronfa Gwella'r Amgylchedd a Chymunedau

9.6 Cynhyrchion Plastig Untro ffeithluniau

9.7 Llyfryn Costau Byw

9.8 Swyddi Gwag ar gyfer dau Aelod o'r Cynghorau Tref a Chymuned ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn - Nodwyd mai'r aelodau a etholwyd oedd y Cyng. Margaret Ann Thomas Cyngor Tref Llangefni a Cyng. Iorwerth Roberts Cyngor Cymuned Bryngwran.

9.9 Cynllun Rheoli Tywyn Trewan – dim sylwadau.

9.10 Parc Solar Traffwll – Rhybudd fod Gweinidogion Cymru wedi cael amser pellach i ystyried Adroddiad yr Arolygydd ar y cais. Felly daw y cyfnod penderfynu i ben ar 13 Mawrth 2023.

**10. Adroddiadau Aelodau:**

Mynegodd Cyng. Sharon Parry bryderon am ddiffyg goleuadau stryd rhwng cyffordd yr A55 a Heol Minffordd. Cytunwyd y byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir i weld pa opsiynau oedd ar gael. Byddai hi hefyd yn eu hatgoffa o gŵyn gynharach Cyng. Siân Jones am yr holl gerrig oedd wedi disgyn ar y palmant.

**11. Cyfarfod nesaf – 21 Chwefror 2023.**